



**Ebrill 8fed 2018**



**Diolch i Helen Prosser am ein croesawu y bore 'ma. Y Parchg Aled Edwards fydd wrth y llyw heddiw gyda Nia Williams yn llywyddu a Bethan Roberts yn cyfeilio.**

**Y Suliau nesaf . . . . .**

**Ebrill 15fed** - Oedfa i'r Teulu, Siân yn cyfeilio.

**Ebrill 22ain** - Keith Rowlands gyda Helen Prosser; Bethan yn cyfeilio a Jane Eryl a Geraint yn croesawu.

**Ebrill 29ain** - Y Parchg Gethin Rhys gyda Huw Roberts yn llywyddu.

### **Dathliadau 150 y Tabernacl**

I ddathlu 150 mlynedd ers codi Capel y Tabernacl gobeithiwn lwyfannu sioe yn olrhain hanes yr achos. Er bod dros ddwy flynedd yn weddill cyn cynnal y dathliadau bydd gofyn dechrau ar y paratoadau cychwynnol am y sioe yn fuan.

**Dathlu'r 150:** Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb i gynorthwyo llunio sgrïpt, cyfansoddi caneuon ynghyd â threfnu i lwyfannu'r perfformiad i gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd.

### **Gweithlu Tacluso'r Fynwent**

Mae Pwyllgor y Meddiannau a'r Ganolfan wedi clustnodi dau ddyddiad yn ystod mis Ebrill i dacluso a chlirio'r fynwent. Maent yn apelio am help llaw cymaint â phosib i ysgwyddo'r baich. Dyma'r nosweithiau a'r amseroedd i'ch dyddiadur: Nos Lun, 16 Ebrill o 5 o'r gloch hyd at 7.30, a Nos Fawrth, 17 Ebrill eto o 5 hyd at 7.30. Cofiwch bydd croeso i unrhyw un sydd ond yn medru dod am ran o'r amser yn unig.

O.N. Cafwyd sicrwydd gan swyddogion y Pwyllgor y telir cyflog cyfartal am yr un gwaith i aelodau o'r ddau ryw!

### **Madagasgar 1818-2018**

Fel rhan o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhelir yn Aberaeron rhwng y 6<sup>ed</sup> a'r 10<sup>fed</sup> o Fehefin bydd yr Undeb yn dathlu 200 mlwyddiant glaniad y cenhadon o Neuadd-lwyd ym Madagasgar ym 1818. Ar nos Wener 8fed o Fehefin bydd sioe i ddathlu hanes y cenhadon cynnar yn cael ei pherfformio ar fferm Pen-rhiw - sef cartref David Jones, un o'r ddau genhadwr cyntaf - a bydd Oedfa Ddathlu ar y pnawn Sadwrn a chyngherdd i gyflwyno doniau Cymru a Madagasgar ar y nos Sadwrn. Os oes unrhyw un awydd archebu tocynnau ar gyfer y sioe, a seddau cadw ar y bws wennol o Aberaeron i'r perfformiad cysylltwch gyda Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / (01443 225205) am ffurflen archebu.

### **Merched y Tabernacl**

Bore Gwener, Ebrill 20fed am 10.30  
Coffi a chlonc yn y Ganolfan